# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Medi 2016

Amser: 14.30 - 15.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3723

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Nathan Gill AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

2.0a Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.1 SL(5)015 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.7(i) a 21.7(v)

3.0a Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 3.1 SL(5)014 - Canllawiau i Ofwat (corff rheoleiddio economaidd y sector dŵr) ar Godi Tâl

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Galw am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Y Broses Ddeddfwriaethol

4.1a Nododd y Pwyllgor yr alwad am dystiolaeth a chytunodd i:

- drafod yr ymchwiliad yn ystod ei ymweliad â Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref; ac
- ystyried cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Cymru: Adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Fil Cymru.